Penrhyn-coch

Cynhaliwyd gweithgareddau noddedig gan y plant ddechrau'r tymor dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon. Cerdded o gwmpas yr ysgol fu disgyblion y dosbarth derbyn tra aeth Blwyddyn 1 a 2 ar daith gerdded. Wrthi'n ddiwyd yn sillafu fu plant Blwyddyn 3 a 4 a chrafu pen wrth ddysgu a chofio tablau oedd camp Blwyddyn 5 a 6. Casglwyd swm sylweddol ar ddiwedd y dydd a mawr yw ein diolch am bob cefnogaeth a chyfraniad.

Croesawyd y rhieni i'r ysgol un noson i wrando ar amrywiol eitemau gan y plant - yn ganu, adrodd, chwarae offer-ynnau ac ymgom - dewisiad cymysg o eitemau Eisteddfod yr Ysgol ac Eisteddfod yr Urdd. Braf oedd gweld cynifer o'r rhieni yn bresennol.

Bu nifer o'r plant yn cystadlu ar lwyfan Eisteddfod y Penrhyn yn ddiweddar a chanmolwn bob un am wneud ei waith mor raenus. Daeth ambell un i'r brig ac ennill gwobrau ond haedda pawb ganmoliaeth am wneud eu gorau.